CYNGOR TREF NEFYN

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024-2025

**<u>Croeso</u>**

Pleser yw cyflwyno adroddiad blynyddol Cyngor Tref Nefyn sy'n cofnodi'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf 2024–2025. Bwriad yr adroddiad yw rhoi crynodeb o waith y Cyngor yn ystod y flwyddyn.


1. **Nefyn, Morfa Nefyn ac Edern – Ychydig o hanes y dair ward**
2. **Y Cynghorwyr**
3. **Staff**
4. **Cyfarfodydd**
5. **Safle We**
6. **Aelodaeth Allanol**
7. **Atebolrwydd**
8. **Cyfrifoldebau'r Cyngor**
9. **Cyllid**
10. **Gwaith y Cyngor**


## 1. Nefyn, Morfa Nefyn ac Edern – Ychydig o hanes y dair ward

Mae tair Ward yn cynrychioli'r Cyngor sef Ward Nefyn, Ward Morfa Nefyn a Ward Edern.

### Nefyn

Mae Nefyn ar arfodir gogledd orllewin Penrhyn Llŷn ar dref agosaf yw Pwllheli ar hyd yr A497.

Cred rhai fod yr enw 'Nefyn' yn tarddu o'r enw Gwyddeleg 'Cnaimhin', mae sôn hefyd fod cysylltiad gyda'r enw Santes Nyfain a drigai tua cannol y 5edG.

Daw'r cyfeiriad cynharaf am Nefyn o ddogfennau cofiant 'Historia Gruffudd ap Cenan', a oedd yn un o ddisynyddion Rhodri Fawr, a'i Fam o dras frenhinol Lychlynaidd. Roedd Gruffydd ap Cynan yn Dad i Owain Gwynedd ac yn Daid i Lywelyn Fawr. Wedi ymgyrchu am gyfnod hir i reoli Gwynedd, llwyddodd gyda brenin Ynys Manaw- Godred i lanio ei gwch yn harbwr Porth Nefyn, ymosod a chipio'r castell Normanaidd yn Nefyn. Mae'n debyg fod hyn yn rhan o wrthryfel mawr y Cymru yn 1094.

Mae cofnod hefyd o Gerallt Gymro yn aros yn Nefyn ar noswyl Sul y Blodau yn Ebrill 1188, tra ar ei gyrch trwy Gymru'n codi ymwybyddiaeth o'r croesgadau.

Erbyn y drydedd ganrif ar ddeg, roedd Nefyn yn dref fasanachol lwyddiannus, mae son am Edward y $1^{af}$ yn cynnal ymryson yng Nghae Iorwerth yn 1284 i ddathlu ei fuddugoliaeth dros y Cymru, ac erbyn 1355 daeth yn fwrdeistref rydd ac yn ganolfan fasnachol lwyddiannus.

Ar hyd y canrifoedd mae'r môr wedi chwarae rhan bwysig iawn yn hanes Nefyn a'i phobl. Mae traeth tywodlyd eang yn Nefyn ac adeiladwyd llongau yma hefyd fel ym Mhorthdinllaen- 120 o longau yn Nefyn rhwng 1760 ac 1880. Roedd pysgota'n ffordd o fyw, ac yn aml byddai pysgota a ffermio ar y cyd yn gynhaliaeth i amryw. Y pysgodyn a gysylltir a Nefyn bob amser yw'r penwaig. Pysgodyn olewog yw hwn a fyddai'n cael ei halltu ei biclo neu ei fygu. Byddai arfordir Gogledd Llŷn o Nefyn i Ynys Enlli yn lle da ofnadwy i ddal penwaig a daeth Nefyn yn brif fan bysgota penwaig yng Ngogledd Cymru.

Roedd tŵr Nefyn a godwyd ar hen safle castell mwnt a beili y cyfnod Normamaidd, wedi ei ddefnyddio yn sgil y bysgodfa benwaig pan oedd yn ei hanterth yn gynnnar yn bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ond credir hefyd fod y tŵr wedi ei godi i wylio'r moroedd yn adeg rhyfeloedd Napoleon.

Safle hanesyddol bwysig arall yw Chwarel Y Gwylwyr. Dyma un o weithfeydd ithfaen mwyaf a chynharaf yn Llŷn, gyda dros hanner cant o ddynion yn gweithio yno yn trin y cerrig i wneud sets, i'w allforio i orchuddio strydoedd y byd.

Un o brif atyniadau Nefyn yw'r Amgueddfa Forwrol sydd wedi ei lleoli yn yr hen Eglwys Santes Fair a fu'n eglwys y plwyf hyd at 1912. Mae hanes cyfoethog y diwydiant llongau a physgota yn yr amgueddfa hon yn ogystal a hanes y chwareli yn y mynyddoedd sy'n codi ar yr ochr ddwyreiniol i'r pentref.

Yn Stryd y Llan mae Amgueddfa Forwrol Llŷn, ac ar droad y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd y rhan fwyaf o adeiladau Nefyn wedi eu lleoli yn ardal y Groes, Stryd y Ffynnon, Stryd y Plas a'r Stryd Fawr. Y diwydiant twristaidd yn yr ugeinfed ganrif sydd wedi hybu datblygiad ardal Ffordd Dewi Sant a Rhodfa'r Mor- dechreuodd y datblygaid hwn gyda chodi Eglwys Dewi Sant 1903 ac yna Gwesty Nanhoron yn 1914. Ar y ffordd yma hefyd mae Ysgol Nefyn ac yn berthnasol iawn, 'Angor Gadarn i Hwylio'r Don' yw arwyddair yr ysgol, a'r tri phenwaig yw'r arwyddlun.

Yn ymyl yr ysgol mae canolfan newydd sbon sydd yn cynnig bob math o weithgareddau a digwyddiadau yn ddyddiol. Dros y ffordd yn Rhodfa'r Mor mae llyfrgell y pentref sydd hefyd mewn adeilad newydd.

CYNGOR TREF NEFYN

Mae Nefyn fel Morfa yn bentref sy'n prysuro o gyfnod y Pasg tan ddiwedd Medi ac mae amrywiaeth o lefydd aros o gwmpas y pentref.

Y B4417 yw'r ffordd fawr sydd yn cysylltu'r tri phentref. Ond os bydd amser gennych, y ffordd orau o ddigon i fynd o Nefyn, i Morfa ac yna ymlaen i Edern ydi ar hyd y llwybr arfordirol sydd yn mynd ar hyd copa'r gelltydd uwchben y môr. Dyma adnodd gwerthfawr sy'n cysylltu nifer o safleoedd sydd o ddiddordeb mawr yn hanesyddol, diwylliannol ac amgylcheddol o gwmpas arfordir Pen Llŷn. Troediodd y Pererinion ran helaeth o'r llwybrau hyn ar eu teithiau i Ynys Enlli, cyfle perffaith i gadw'n heini tra'n mwynhau'r golygfeydd bendigedig.

**Morfa Nefyn**

Pentref ar arfordir ogleddol Penrhyn Llyn ydi Morfa Nefyn. Wrth deithio ar hyd y B4417, mae Morfa filltir i'r gorllewin o bentref hynafol Nefyn. Y dref agosaf ydi Pwllheli sydd 7 milltir i'r de ar hyd yr A479. Er fod ambell i fwthyn yn Morfa yn dyddio yn ôl i ganol y ddeunawfed ganrif, ac olion patrymau gerddi o'r oesoedd canol ar y caeau yn Nefyn a Morfa, o 1806 ymlaen y tyfodd Morfa i fod yn bentref, gyda dyfodiad y ffordd dyrpeg newydd a a'i ar draws Llŷn, o'r Traeth Mawr i Borthdinllaen.

Calon y pentref yw Ysgol Morfa Nefyn, ysgol fabanod lle mae 33 o blant yn ei mynychu. Mae Canolfan yng nghanol y pentref sydd yn leoliad i nifer o gymdeithasau a digwyddiadau. Bydd capel Moreia yn cynnal cyfarfodydd yn wythnosol ac mae cyfarfodydd tymhorol yn Eglwys Santes Fair o dan ofal Cyfeillion yr Eglwys.

Wrth ddod i lawr Lôn Bridin i'r traeth o'r pentref, mae Bae Morfa Nefyn rhwng Penrhyn Porthdinllaen a Phenrhyn Nefyn, yn filltir a chwarter ar ei draws ac mae yma 100 acer o fôr sydd a'i ddyfnder ar gyfartaledd yn 30ain troedfedd. Mae'r bae cilgant godidog hwn wedi ei amgylchynnu gan elltydd uchel sy'n codi rhwng 80 a 100 troedfedd. I'r dwyrain o'r bae gwelir mynyddoedd Yr Efil, a chopaon Eryri y tu hwnt iddynt. Ar ochr orllewinol y bae mae hen dreflan bysgota Porthdinllaen sydd a thoreth o hanes morwrol yn perthyn iddi, ac yma y saif tafarn Tŷ Coch. Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sydd berchen y traeth a'r adeiladau sydd yno ers 1994. Defnyddiwyd yr harbwr ar gyfer masnachu am ganrifoedd, a hynny yn ei anterth yn y bedwredd ganrif ar bymtheg. Datblygodd masnach lewyrchus rhwng Porthdinllaen a De Cymru, Iwerddon, Mersi a Dyfrdwy. Byddai hefyd yn harbwr diogel i longau yn chwilio am loches. Mae'r diwydiant pysgota yn dal i fynd hyd heddiw gyda pobol yr ardal yn parhau i bysgota yma.

Heddiw, i lawr i'r chwith o Dŷ Coch mae Bae'r Bad Achub newydd y 'John D Spicer' yn ei gwt newydd sbon, bu seremoni agoriadol i agor y safle yn swyddogol ac i enwi'r gwch.

Uwchben y gelltydd, yn ymyl y Clwb Golff mae Gwylwyr y Glannau. Heddiw mae'r pentref ar ei brysuraf rhwng Mawrth a diwedd Medi, mae tafarndai yn y pentref yn cynnig prydau ac mae amrywiaeth o ran llefydd i aros ynddynt. Mae Morfa mewn bro o harddwch naturiol eithriadol, mae Cwrs Golff Nefyn yn atyniad poblogaidd, y traeth, ar holl lwybrau difyr sy'n gwau o amgylch yr ardal.

**Edern**

Daw'r enw 'Edern' o 'Edeyrn'. Roedd Sant Edeyrn yn fab i Gwyrtheyrn- brenin y Brythoniaid a rhyfelwr o'r bumed ganrif, roedd ganddo ddau frawd- Elldeyrn a Sant Aerdeyrn. Mae'r enw Sant Edeyrn ar eglwys y plwyf heddiw, gall fod cell grefyddol yn yr ardal a dylanwad Sant Edeyrn arni, yn dyddio yn ôl i oes y seintiau. Mae'n debygol mai o gwmpas Eglwys Edern y tyfodd y pentref yn wreiddiol.

Ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg, roedd Edern yn drefgordd gaeth, ac esgob Bangor oedd yn gyfrifol amdani. Roedd 42 o denantiaid yn byw yn Edern amser hynny ac roeddent yn amaethu tua 60erw o dir yn yr ardal. Roedd nifer o faenorau yn nwylo'r Esgob yn ystod yn cyfnod hwn ac roedd Edern yn un o'r maenorau hynny. Roedd ganddo dŷ yn Edern, a 50erw o dir hefyd ac ar y tir hwn roedd melin ddwr ganoloesol er mwyn malu yd, ac yn yr un fan y safai'r felin yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ar ochr Ogleddol Afon Geirch -yn ymyl y bont ar waelod Allt Goch, mae yn dŷ gwyliau erbyn heddiw. Ac i'r adeilad hwn sef i'r 'Felin' y byddai J. Glyn. Davies awdur Caneuon Fflat Huw Puw- yn dod am fis o wyliau yn ystod yr haf. Roedd ganddo feddwl y byd o'r plwyfi hyn a'r trigolion.

Nepell o'r felin, mae eglwys y plwyf sef Eglwys Sant Edern. Codwyd yr adeilad presennol yn 1868 yn ymyl fferm Ty'n Llan. Mae gwasanaethau yn cael eu cynnal yno'n dal i fod. Yn ymyl yr eglwys mae'r ysgoldy a fu'n ysgol i blant y fro am ddegawdau. Roedd rheithordy 300metr i'r de-ddwyrain, lle saif Gwesty'r Goedlan heddiw. Yn ystod y cyfnod hwn roedd y pentref yn tyfu. Erbyn 1840 roedd dwsin o adeiladau ar hyd y ffordd o'r de i'r gorllewin, ac i fyny'r allt oddi wrth afon Geirch. Safai'r felin a soniwyd amdani ynghynt, ar yr ochr arall. I'r gorllewin oddi wrth y felin ar hyd y lôn roedd cymuned fach wedi codi o gwmpas y groesffordd, ac fel y 'groesfordd' yr adwaenid y fan hon, mae'r enw wedi troi yn 'gysffor' ers talwm, ar lafar gwlad. Yma y cododd y Methodistiaid Calfinaidd gapel yn 1842, ond fe gafodd ei helaethu yn 1877, caewyd ei drysau am y tro olaf yn 2022. Mae Tom Nefyn wedi ei gladdu ym mynwent y capel. O'r groesffoedd, mae un ffordd yn arwain tuag at y gogledd ar môr. Fel Nefyn a Morfa, mae'r môr wedi chwarae rhan bwysig ym mywydau trigolion Edern hefyd. Un o'r llongddrylliadau enwocaf (ac mae sawl un wedi bod ar greigiau'r arfordiroedd rhain) oedd trychineb y Cyprian. Agerlong oedd hi a hwyliai o

Lerpwl i Genoa ym mis Hydref 1881. Roedd y môr yn berwi'r diwrnod hwnnw, a hyrddiwyd y llong ar greigiau Rhosgor. Roedd hyd yn oed yn rhy ryfygus i lansio Bad Achub Porthdinllaen. Ceisiodd y Capten Strachaan a'r criw ddianc, ond boddwyd nifer o'r morwyr. Gwobrywyd dewrder ac ymdrech trigolion lleol wrth iddynt geisio achub criw y Cyprian, a chawsant sofren yn gydnabyddiaeth gan sgweiar Nanhoron ynghyd a thystysgrif. Mae carreg wedi ei gosod ym mynwent Edern er cof am yr 19 o forwyr a gollodd eu bywydau yn y drychineb.

Mae'r ffordd gyferbyn a'r lôn sy'n mynd am y môr, yn arwain i'r de tuag at Gefnedern a Glanrhyd. Ar hyd y ffordd yma mae Ysgol Gynradd Edern hefyd, a godwyd yn 1950. Mae'r ffordd i'r gorllewin o'r pentref yn arwain tuag at Aberdaron, ac o ddilyn y lôn ddwyreiniol am ryw filltir, fe ddowch yn ol i Morfa Nefyn.

## 2. Y Cynghorwyr

Mae pymtheg Cynghorydd wedi eu hethol ar Gyngor Tref Nefyn ac fe etholir Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yn y cyfarfod blynyddol.

**Cynghorwyr Nefyn**

Arfon Hughes
Gruffydd Williams – ac yn Gynghorydd Sir
Carys Roberts
Alaw Llewelyn Roberts – Is-gadeirydd 2024-2025
Lleucu Fflur Jones
Rhys Llewelyn
Iwan Evans

**Cynghorwyr Morfa Nefyn**

Catrin Heledd Roberts
Mared Llywelyn Williams – Cadeirydd 2024-2025
Gareth Jones – ac yn Gynghorydd Sir
Rhian Angharad Sanson
Janice Evans
Wil Lake

**Cynghorwyr Edern**

Cyngor Tref Nefyn

Caren Jones
Griffith Williams
Gwynfor Ellis Jones

**3. Staff**

Un aelod o staff sydd gan y Cyngor Tref, sef Mrs Pat Humphreys, sy'n Glerc a Phrif Swyddog Ariannol. Mae'n gweithio rhan amser. Gellir cysylltu gyda'r Clerc drwy e-bost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com.

**4. Cyfarfodydd**

Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor ar yr ail nos Fawrth o bob mis ac eithrio mis Awst am saith o'r gloch. Cynhelir y cyfarfodydd yn hybrid sef yn Siop Siarad, Stryd Fawr, Nefyn a drwy Zoom, mae'r cyfarfodydd hyn ar agor i'r cyhoedd. Cymraeg yw iaith weinyddol y Cyngor felly, cynhelir y cyfarfodydd yn y Gymraeg.
Cynhelir cyfarfod Blynyddol y Cyngor ym mis Mai pryd yr etholir Cadeirydd ac Is-gadeirydd am y flwyddyn ynghŷd ac adolygu Dogfennau a Pholisiau'r Cyngor sydd yn cael eu arddangos ar wefan y Cyngor:
Rheolau Sefydlog, Rheolau Ariannol, Polisi Iaith, Polisi Cyfryngau Cymdeithasol, Polisi Pryderon a Chwynion, Rheolau Mynwentydd, Asesiad Risc, Cynllun Hyfforddiant, Adroddiad Blynyddol, Adroddiad Bioamrywiaeth a Rhestr Asedau.
Mae gan y Cyngor yr Is-bwyllgorau canlynol, a fydd yn cael eu hadolygu yn y cyfarfod blynyddol, sy'n cyfarfod yn achlysurol:
Ariannol, Llwybrau, Llyfrgell, Traethau, Rheolau, Clwb Ieuenctid, Mynwentydd, Byrddau Gwybodaeth, Hanesyddol, Gweithgareddau a Siop Siarad.

**5. Safle We**

Mae gwybodaeth am y Cyngor Tref gan gynnwys rhaglenni cyfarfodydd, cofnodion, polisïau a newyddion ar safle We'r Cyngor: www.nefyn.cymru

**6. Aelodaeth Allanol**

Mae'r Cyngor Tref yn elwa o fod yn aelod o Un Llais Cymru, sef y prif gorff ar gyfer cynghorau cymuned a thref Cymru ac hefyd yn elwa o fod yn perthyn i SLCC sef Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Mae'r Cyngor Tref yn ethol aelodau i gyrff allanol eraill, sef Bwrdd Llywodraethol Ysgol Nefyn, Morfa Nefyn ac Edern a Pwyllgor Canolfan Gymdeithasol Edern.

**7. Atebolrwydd**

Mae'r Cyngor Tref wedi mabwysiadu côd ymddygiad aelodau a chedwir cofrestr o fuddiannau ar gyfer pob aelod. Mae gofyn i'r cynghorwyr ddatgelu unrhyw fuddiannau sydd ganddynt am eitemau i'w trafod ar gychwyn bob cyfarfod a bydd y rhain yn cael ei nodi yn y cofnodion.
Mae cyfrifon y Cyngor Tref yn cael ei harchwilio gan archwilydd mewnol ac allanol yn flynyddol. Mae'r archwiliad mewnol yn cael ei gynnal gan Adran Archwilio Cyngor Gwynedd, a'r Archwiliad Allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

**8. Cyfrifoldebau'r Cyngor**

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ddarparu amrywiaeth o wahanol wasanaethau o fewn yr ardal y mae'n ei gynrychioli ar ran y gymuned gyfan.

Dyma rai o gyfrifoldebau Cyngor Tref Nefyn:

- gosod Praesept sef y dreth sydd yn cael ei ddosbarthu i'r Cyngor Tref bob blwyddyn,
- cyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio i Bwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd,
- cynnal a chadw tiroedd ac eiddo'r Cyngor sef Mynwentydd Nefyn, Morfa Nefyn ac Edern, Côf Golofn Nefyn ac Edern, Llyfrgell Nefyn, Cae Chwarae Bryn Mynach â'r Ddôl Nefyn, y Bont Edern, â llwybrau cyhoeddus Nefyn, Morfa Nefyn ac Edern (derbynir ad-daliad am gyfran o gost eu cynnal gan Gyngor Gwynedd),
- cyfrannu at geisiadau am nawdd oddi wrth elusennau/grwpiau/mudiadau ar yr amod y derbynnir mantolen ariannol gyfredol, yn unol â Rheoliadau Ariannol y Cyngor,
- hysbysu adrannau perthnasol Cyngor Gwynedd am gyflwr ffyrdd, pontydd, goleuadau stryd, meusydd parcio a hawliau tramwy,

**9. Cyllid**

Prif ffynhonnell incwm y Cyngor yw'r praesept a osodir yn flynyddol a'i gyflwyno i Gyngor Gwynedd ym mis Ionawr ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a dyma'r unig ffynhonnell o incwm ardreth sydd ar gael i gynghorau cymuned a thref. Paratoir cyllideb ddrafft ar sail asesiad o sefyllfa ariannol y Cyngor drwy ystyried y costau tebygol yn yr hydref. Mae'r Cyngor yn cyfrannu £12,000 y flwyddyn at gynnal a chadw toiledau

CYNGOR TREF NEFYN

cyhoeddus y gymuned ac yn cyfrannu £5,500 y flwyddyn at draethau Nefyn a Morfa Nefyn.
Hawlia'r Cyngor ad-daliad treth ar werth a dalwyd yn ystod y flwyddyn.

**MANTOLEN**
**Incwm / Gwariant 2024-2025**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| PRAESEPT | £ 90,000.00 | MANTOLEN | |
| Mynwentydd | £ 23,075.00 | Yn y banc 31/03/2024 | |
| Arall | £134,118.88 | | |
| | **£247,193.88** | Cyfrif Cyfredol | £54,731.80 |
| | | LLai sieciau heb eu cyflwyno | £ 2,876.96 |
| | | | **£51,854,84** |
| **Gwariant** | | | |
| Llwybrau | £ 18,028.12 | | |
| Mynwentydd | £ 20,368.43 | | |
| Torrwr Beddi | £ 9,030.00 | | |
| Traethau a Thoiledau | £ 17,500.00 | | |
| Cyfraniad | £ 1,805.00 | Yn y banc 31/03/2025 | |
| Llyfrgell | £ 6,186.70 | | |
| Siop Siarad | £ 3,309.50 | Cyfrif cyfredol | £17,155.75 |
| Costau Staff | £ 22,502.02 | LLai sieciau heb eu cyflwyno | £ 1,440.00 |
| Arall | £151,969.45 | | **£15,715.75** |
| Treth ar Werth | £ 32,633.75 | | |
| | **£283,332.97** | | |
| Incwm ar ôl gwariant | -**£36,139.09** | Lleihad mewn balans yn y banc | **£36,139.09** |

P.E.Humphreys (Clerc)
01/04/2025

Cyngor Tref Nefyn

**10.Gwaith y Cyngor**
Dyma fanylion o'r gwaith mae Cyngor Tref Nefyn wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn.

**Bryn Mynach a'r Ddôl**
Trefnwyd i artist lleol ddod i ail baentio'r pad 'Hopscoch' a'r 'Sliwan a Ystolion' gan eu bod wedi colli eu lliw o ganlyniad i'r tywydd, fe wnaeth contractwr lleol eu golchi yn gyntaf a wedyn rhoi 'sealer' arnynt cyn ac ar ôl iddynt gael eu ail baentio.
Trefnwyd hefyd i waredu Cegid (Hemlock) o afon Bryn Mynach gan ei fod yn blanhigyn gwenwynig ac yn berygl i'r plant sydd yn chwarae yn yr afon.
Mae gwaith wedi cael ei wneud ar y ddwy bont yn Brynmynach â'r Ddôl rhoddwyd graean bob ochor i un a concrid bob ochor i'r llall.

**Llwybr Penrallt Nefyn**
Cafodd y canllawiau ar hyd y llwybr eu trin er mwyn ymestyn eu hoes ac osgoi iddynt bydru a cafodd un o'r meinciau ar y Lôn Gam ei thrwsio.

**Llwybr yr Arfordir wrth ymyl y Cliffs Morfa Nefyn**
Creuwyd llwybr newydd yn y fan yma er mwyn rowlio llinell y llwybr yn ôl gan fod perygl o dirlithriad.

**Llwybr Lôn Glandwr**
Rhoddwyd 2 lwyth lorri o gerrig ar y llwybr yma gan ei fod o dan ddŵr difrifol ac yn amhosibl ei gerdded.

**Logo CTN**
Creuwyd logo newydd i Cyngor Tref Nefyn sydd i'w weld ar ben bob tudalen o'r adroddiad yma ynghŷd â bob llythyr a holl ddogfennau'r Cyngor Tref.

**Sul y Cofio**
Trefnwyd gwasanaethau Sul y Cofio ar y cŷd hefo'r Lleng Brydeinig â'r Eglwys a gosodwyd torchau gan y Cyngor yn Nefyn, Morfa Nefyn ac Edern.

**Coed Nadolig a'r Gwasanaeth Goleuo**
Trefnwyd i osod coeden nadolig yn y tri pentref gyda busnesau lleol yn cyfrannu at y gost a cynhaliwyd gwasanaethau goleuo a oedd yn cyd-fynd ac ymweliad Sion Corn.

**Adeiladau Hanesyddol**
Rhoddwyd Plac ar fan geni Dr Herbert Rees Wilson sef tŷ o'r new Summerhill yn Nefyn i gofio am ei waith fel rhan o'r tim a ddarganfyddodd DNA.

**Mynwent Nefyn**

Cyngor Tref Nefyn

Ail-wynebwyd lôn Mynwent Nefyn hefo ‘tarmac’ gan fod cyflwyr y lôn wedi dirywio yn ddrwg a tyllau mawr wedi dechrau ffurfio ynddi.

**Siop Siarad**

Gosodwyd arwydd newydd uwchben Siop Siarad a ddylunwyd gan Designer Signs.

**Planters Blodau**

Archebwyd 3 planter newydd, un i bob pentref, y rhai 3 ‘tier’ sydd eisioes wedi eu gosod yn Nefyn. Gosodwyd un wrth yr Ysgol yn Nefyn, un yn Cae Coch yn Morfa a’r llall ar y bont yn Edern.

**Llyfrgell Nefyn**

Gwnaed ychydig o waith cynnal a chadw yn y Llyfrgell megis trwsio ‘patch’ damp a’r do’r adeilad ac ail osod rheiddiadur yn ôl ar y wal.

Pat Humphreys
Clerc Cyngor Tref Nefyn
Ebrill 2025